

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**  
**Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP**

HYSBYSIR TRWY HYN yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a'r Côt Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor), ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid ystod oedran Ysgol Swiss Valley, Heol Beili Glas, Swiss Valley, Felinfoel, Llanelli, SA14 8DS o 4-11 i 3-11 a darparu 30 o leoedd meithrin. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Y bwriad yw rhoi'r cynnig ar waith ar 1 Medi 2022.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar [Dudalen Ymgynghoriad Ysgol Swiss Valley](#).

30 fydd nifer y disgyblion a dderbynnir pan fyddant yn 4/5 oed yn y flwyddyn ysgol gyntaf y gweithredir y cynnig. Bydd capasiti'r ysgol o ran disgyblion 3-11 oed, pan fydd y cynnig wedi ei gyflwyno, yn 243. Bydd 30 o leoedd meithrin ar gael.

Ni fydd newid i ddalgylch yr ysgol.

Cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **6 Chwefror 2022**, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig hwn. Dylid cyflwyno gwrthwynebiadau drwy:

gwblhau'r [arolwg ar-lein](#),

anfon e-bost at [RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk](mailto:RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk)

neu anfon llythyr at Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB.

**Llofnodwyd: Mr Gareth Morgans**  
**Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**  
**Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Dyddiedig: 10 Ionawr 2022**

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn egluro)

1. Bwriad yr Awdurdod yw newid ystod oedran Ysgol Swiss Valley o 4-11 i 3-11.

2. Os bydd plentyn yn cael ei dderbyn i'r dosbarth meithrin nid yw hyn yn rhoi hawl i'r plentyn gael lle llawn amser yn yr ysgol yn ddiofyn a bydd rhaid gwneud cais newydd.
3. Mae gan ddisgyblion meithrin yr hawl i addysg rhan amser o ddechrau'r tymor yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed. Caiff addysg rhan-amser ei ddiffinio fel 5 sesiwn bore neu brynhawn bob wythnos. Bydd disgyblion meithrin yn cael yr hawl i fynychu yn llawn amser ar ddechrau'r tymor cyn eu penblwydd yn 4 oed.

Bydd y newid arfaethedig yn digwydd ar 1 Medi 2022.